

<p>The Second Book of Little Dragon Mu Mu visits the Netherlands</p>	<p>Ail lyfr Mw, y Ddraig Fach. Mw yn ymweld â'r Iseldiroedd.</p>
<p>written by Ann Katherine Isaacs and Robert Wagenaar with illustrations by Ursula Joell Mathers. Translated by J. Gwynfor Jones</p>	<p>Ysgrifennwyd gan Ann Katherine Isaacs a Robert Wagenaar gyda lluniau gan Ursula Joell Mathers. Cyfieithwyd gan J. Gwynfor Jones</p>
<p>page 6 After his first visit to Europe, Little Dragon Mu moved to the Netherlands. His mother and father, Ro and Bing, were going to work at the Dragonian Embassy in the Hague, and Mu would start primary school in the fall.</p>	<p>tudalen 6 Wedi ei ymweliad cyntaf ag Ewrop, symudodd Mw y Ddraig Fach i'r Iseldiroedd. Roedd ei fam a'i dad, Ro a Bing, yn mynd i weithio i Lysgenhadaeth Dragonia yn yr Hâg, a byddai Mw yn dechrau yn yr ysgol gynradd yn yr Hydref.</p>
<p>p.8 The dragon family had heard that the Netherlands was a tolerant country where they would feel welcome. Bing wanted to see the windmills and understand how the Dutch make dikes, whereas Ro looked forward to seeing fields of tulips like the ones in Dragonia.</p>	<p>t.8 Clywodd teulu'r Dreigiaid fod yr Iseldiroedd yn wlad oddefgar lle y byddent yn cael croeso. Roedd Bing eisiau gweld y melinau gwynt a gweld sut y gwna'r Isalmaenwyr forgloddiau, ac edrychodd Ro ymlaen i weld y meysydd tiwlips fel y rhai yn Dragonia.</p>
<p>p.9 Mu bought a little bag of bulbs at the airport shop in Schiphol.</p>	<p>t.9 Prynodd Mw gwdyn bach o fylbiau yn siop y maes awyr yn Schiphol.</p>
<p>p.10 Travelling by train from Amsterdam to the Hague Mu looked out the window and was amazed to see a very large ship sailing above the railroad. How could that be?</p>	<p>t.10 Wrth deithio gyda'r trê'n o Amsterdam i'r Hâg edrychodd Mw drwy'r ffenestr ac fe'i syfrdanwyd i weld llong fawr yn hwylio uwchben y rheilffordd. Sut gallai hynny ddigwydd?</p>
<p>p.11 Bing explained that much of the Netherlands is lower than the level of the sea. Over the centuries the Dutch people have made their country larger by building dikes and pumping the sea water out.</p>	<p>t.11 Eglurodd Bing fod llawer o'r Iseldiroedd yn îs na lefel y môr. Dros y canrifoedd mae pobl Isalmaen wedi gwneud eu gwlad yn fwy trwy adeiladu morgloddiau a phwmpio dŵr allan.</p>
<p>p.12 Mu's new home was above an Indonesian restaurant. There were several other restaurants and many shops along the street. It was called <i>Lange Poten</i>, which meant 'Long Legs Street'. Mu thought that was funny and laughed at the idea of a street having legs.</p>	<p>t.12 Roedd cartref newydd Mw uwchben bwyty Indonesaidd. Cafwyd nifer o dai bwyta eraill a llawer o siopau ar hyd y stryd. Fe'i gelwid yn <i>Lange Poten</i> a olygai 'Stryd y Coesau Hirion'. Meddyliai Mw fod hynny'n ddoniol a chwaredodd am ben y syniad o stryd a chanddi goesau.</p>
<p>p.13 The Dragons' house had a garden in the back where Mu could play outside on sunny days. But the weather was getting cold, so Mu decided to plant the tulip bulbs in a pot on the windowsill. Little Dragon Mu liked going to school. His schoolmates enjoyed hearing about Dragonia and he learned all about life in the Netherlands.</p>	<p>t.13 Roedd gardd yng nghefn tŷ'r Dreigiaid lle gallai Mw chwarae y tu allan ar ddyddiau heulog. Ond roedd y tywydd yn oer, ac felly penderfynodd Mw blannu bylbiau tiwlip mewn potyn ar silff y ffenestr. Carai Mw'r Ddraig Fach fynd i'r ysgol. Mwynhâi ei gyfeillion ysgol wrando am Dragonia, a dysgodd ef lawer am fywyd yn yr Iseldiroedd.</p>

<p>p.14</p> <p>In History class, Mu discovered that a long time ago the Netherlands was called the United Provinces. People driven out of other countries because of their religion were allowed to live in Amsterdam. The Dutch conquered lands all over the world, in Surinam, in the Caribbean Sea, in Malesia and Indonesia. In North America they founded New Amsterdam - which later became New York City. They had great sailing boats to carry merchandise and huge war ships too.</p>	<p>†.14</p> <p>Yn y dosbarth hanes darganfu Mw fod yr Iseldiroedd amser maith yn ôl yn cael eu galw'n Rhanbarthau Unedig. Caniatáwyd i bobl a yrrwyd allan o wledydd eraill oherwydd eu crefydd i fyw yn Amsterdam. Concrodd yr Isalmaenwyr diroedd dros y byd i gyd, yn Swrinam, ym Môr y Caribî, ym Maleisia ac Indonesia. Yng Ngogledd America sefydlwyd Amsterdam Newydd ganddynt - a ddaeth yn ddiweddarach yn ddinas Efrog Newydd. Roedd ganddynt gychod hwylio mawr i gludo nwyddau a llongau rhyfel enfawr hefyd.</p>
<p>p.16</p> <p>Mu asked where all those lands were now, and why the Dutch needed to build dikes and pump out the sea water if they were so rich and powerful. "Those faraway countries regained their independence long ago", said the teacher, "but many of their people still lived in the Netherlands." Mu could see that his classmates came from different parts of the world. They were of various sizes, shapes and colours. Mu felt right at home.</p>	<p>†.16</p> <p>Gofynnodd Mw lle'r oedd y tiroedd hynny i gyd erbyn hyn, a pham bod angen adeiladu morgloddiau a phwmpio dŵr y môr allan os oeddynt mor gyfoethog a grymus. 'Ad-enillodd y gwledydd pell hynny eu hannibyniaeth ymhell yn ôl', meddai'r athro, 'ond parhaodd llawer o'r bobl i fyw yn yr Iseldiroedd.' Gwelodd Mw fod ei gyfeillion dosbarth yn dod o wahanol rannau o'r byd. Roeddynt o faint, siâp a lliw amrywiol. Teimlai Mw yn hollol gartrefol.</p>
<p>p.19</p> <p>The teacher said that today the Netherlands are devoted to the principles of peace and justice. The Hague is the seat of important international organisations. The class visited the International Court of Justice, called <i>Palace van de vrede</i> or the 'Peace Palace'. People accused of horrible crimes are tried there. To make it fair judges come from all over the world. Mu was impressed.</p>	<p>†.19</p> <p>Dywedodd yr athro fod yr Iseldiroedd heddiw wedi ymroi i egwyddorion heddwch a chyfiawnder. Mae'r Hâg yn safle i gyfundrefnau rhyngwladol pwysig. Ymwelodd y dosbarth â Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a elwid <i>Palace van de vrede</i> neu 'Palas Heddwch'. Gwrandewir achosion pobl a gyhuddwyd o droseddau ofnadwy yno. Er mwyn tegwch daw Barnwyr o bob rhan o'r byd. Roedd Mw yn llawn edmygedd.</p>
<p>p.20</p> <p>One day Mu came home from school and found that there was great news. Bing and Ro told him that soon he would have a little sister or brother. Dragon mothers lay big spotted eggs, and Ro showed him hers.</p>	<p>†.20</p> <p>Un diwrnod daeth Mw gartref o'r ysgol a chanfod fod yna newyddion da iawn. Dywedodd Bing a Ro wrtho y byddai'n cael chwaer neu frawd bach yn fuan. Dodwyai'r mamau Dreigaidd wyau mawr brychion, a dangosodd Ro ei hwyau iddo.</p>
<p>p.21</p> <p>They would have to keep it nice and warm until it hatched. Mu could hardly wait to go to school the next day to tell all his friends. But there was a big problem. How could Ro keep the egg warm while she was working? She could hardly sit on the egg in her office. Ro decided to ask the Hospital if they could put the egg in one of the incubators used to keep infants warm.</p>	<p>†.21</p> <p>Byddai raid iddynt ei gadw'n glyd a chynnes nes iddo ddeor. Ni allai Mw aros i gael mynd i'r ysgol y diwrnod canlynol i ddweud y cyfan wrth ei gyfeillion. Ond roedd yna broblem fawr. Sut gallai Ro gadw'r wŷ yn gynnes tra'r oedd hi'n gweithio? Prin y gallai eistedd ar yr wŷ yn ei swyddfa. Penderfynodd Ro ofyn i'r Ysbyty os gallent roi'r wŷ yn un o'r deoryddion a ddefnyddid i gadw babanod yn gynnes.</p>

<p>p.23 The hospital staff scarcely listened to her request. The Director told her that dragon eggs were not allowed in the hospital, especially in incubators which must be kept sterile. "Dutch hospitals are not prepared for dealing with dragon problems," he told them, "wouldn't it be better if you went back to your own country?" Ro took Mu's little clawed hand into her big clawed hand and they started home, worried and disappointed.</p>	<p>t.23 Prin y gwrandawodd staff yr ysbyty ar ei dymuniad. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrthi na chaniatáwyd dod ag ŵy Draig i'w ysbyty, yn arbennig mewn deoryddion y mae'n rhaid eu cadw'n ddi-haint. 'Nid yw ysbytai'r Isalmaenwyr yn barod i ymdrin â phroblemau Dreigaidd', meddai wrthynt, 'oni fyddai'n well pe byddech yn dychwelyd i'ch gwlad ein hunain?' Cymerodd Ro law crafangog Mw yn ei llaw grafangog mawr hi, a dechreusant fynd adref yn poeni ac yn siomedig.</p>
<p>p.24 The neighbours on Long Legs Street saw that there was something wrong. Ro explained that she was expecting a little dragon, but that no one at the hospital could help her. The neighbours wanted to help but didn't know what to do either. Ro would have to leave her job. She would sit on the egg. But even so, would it be warm enough in the winter climate?</p>	<p>t.24 Gwelodd y cymdogion ar Stryd y Coesau Hirion fod rhywbeth o'i le. Eglurodd Ro ei bod yn disgwyl draig fechan, ond na allai neb yn yr ysbyty ei helpu. Roedd y cymdogion eisiau helpu, ond ni wyddent ychwaith beth i'w wneud. Byddai rhaid i Ro adael ei swydd. Byddai'n eistedd ar yr ŵy. Ond, er hynny, a fyddai'n ddigon cynnes yn yr hinsawdd aeafol?</p>
<p>p.25 Mu told his friends about the egg and about his fear that it wouldn't be able to hatch. (xxxxx 4 kids names) were shocked that no one knew how to help.</p>	<p>t.25 Dywedodd Mw wrth ei gyfeillion am yr ŵy, ac am ei ofn na fyddai'n gallu deor (xxxxx 4 enw plentyn) wedi'u syfrdanu na wyddai neb sut i gynorthwyo.</p>
<p>p.27 The next day, everyone brought an electric blanket from home. After school the whole class went to Mu's house on Long Legs Street. They built a special nest for Ro's egg in the living room and their teacher helped them to test the thermostats.</p>	<p>t.27 Drannoeth, daeth pawb â blanced drydan o'u cartrefi. Wedi ysgol aeth yr holl ddosbarth i dŷ Mw ar Stryd y Coesau Hirion. Adeiladasant nyth arbennig ar gyfer ŵy Ro yn yr ystafell fyw, a chynorthwyodd eu hathro hwy i brofi'r thermostatau.</p>
<p>p.28 Every afternoon the children hurried home with Mu to see how the egg was doing. Outside it was freezing cold and when Saint Nicolas day came, Mu received a pair of ice skates so that he could skate on the frozen canals. There were no boats going up and down them now.</p>	<p>t.28 Bob prynhawn, brysiodd y plant adref gyda Mw i weld sut roedd yr ŵy yn dod ymlaen. Y tu allan roedd hi'n rhewi, a phan ddaeth dydd Sant Nicolas derbyniodd Mw bâr o esgidiau sglefrio fel y gallai sglefrio ar y camlesi rhewllyd. Nid oedd unrhyw gyhod yn mynd are eu hyd i fyny ac i lawr nawr.</p>
<p>p.30 Slowly the weather got warmer and then, one day Tessa, Friso, Femke, Hugo and Mu saw a tiny crack in the eggshell. Everyone crowded around to watch. The crack grew larger and larger. The egg was hatching! What a surprise! The next moment Mu realised that he had a little brother...</p>	<p>t.30 Yn araf, cynhesodd y tywydd ac yna, un diwrnod, gwelodd Tessa, Friso, Femke, Hugo a Mw grac bychan iawn ym mhlisgyn yr ŵy. Daeth pawb o gwmpas i wyllo. Tyfodd y crac yn fwy ac yn fwy. Roedd yr ŵy yn deor! Dyna syndod! Yr eiliad nesaf sylweddolodd Mw fod ganddo frawd bach...</p>

<p>p.31 ... and a little sister too!</p>	<p>t.31 ... a chwaer fach hefyd!</p>
<p>p.32 There was a big celebration in Long Legs Street for Ling and Ko. The neighbours all came, and some of them were even doctors and nurses from the hospital. The happiest of all - besides Bing and Ro - were Mu and his friends. They had had a very good idea and proved that the Netherlands is a place of solidarity and tolerance - for dragons too.</p>	<p>t.32 Cafwyd dathliad mawr yn Stryd y Coesau Hirion i Ling a Ko. Daeth y cymdogion i gyd, ac roedd rhai ohonynt hyd yn oed yn feddygon a gweinyddesau o'r ysbyty. Yr hapusaf ohonynt oll - ar wahân i Bing a Ro - oedd Mw a'i gyfeillion. Roeddynt wedi cael syniad da iawn ac wedi profi fod yr Iseldiroedd yn fan lle ceid cydymddibyniaeth a goddefgarwch - i ddreigiau hefyd.</p>
<p>p.33 Mu's tulips were blooming now, and he showed them to Ling and Ko.</p>	<p>t.33 Roedd bylbiau Mw yn blodeuo nawr, a dangosodd hwy i Ling a Ko.</p>
<p>p.34 How long do you think the dragon family stayed in the Hague? Where did they go next?</p>	<p>t.34 Am ba hyd y meddyliwch yr arhosodd teulu'r ddraig yn yr Hâg? I ble yr aethant nesaf?</p>
<p>p.35 To your country? Or did they stay for a while on Long Legs Street?</p>	<p>t.35 I'ch gwlad chi? Neu a fu iddynt aros am ychydig yn Stryd y Coesau Hirion?</p>